# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 07/07/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Diwydiant Llaeth

**C1 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r diwydiant llaeth yng Nghymru? WAQ(3)1106(RAF) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae nifer o raglenni a mentrau ar waith i helpu'r diwydiant godro yng Nghymru—Cyswllt Ffermio, grantiau prosesu a marchnata—ac yr oedd yn dda gennyf lansio prosiect arbedion cadwyn gyflenwi'r sector godro ddydd Iau diwethaf. Bydd y prosiect, sy'n werth £3.4 miliwn, yn gwella cadwyn gyflenwi'r sector o ran ei heffeithlonrwydd, ei chynaliadwyedd a'i gwerth ychwanegol.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 8 yn ystod y Cyfarfod Llawn.*

### Niferoedd Pysgod Hela

**C9 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am niferoedd pysgod hela yn afonydd Cymru? OAQ(3)1107(RAF)

**Elin Jones:** Ychydig dros 5,000 oedd cyfanswm yr eogiaid a ddaliwyd yng Nghymru yn 2009 drwy ddefnyddio gwialen bysgota, i lawr 40 y cant ar gymedr y pum mlynedd blaenorol. Mae nifer y dalfeydd a'r heigiau o eogiaid a gleisiaid ymhlith yr isaf a gofnodwyd. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn parhau i ymchwilio i achosion y gostyngiad yn y nifer.

### Mentergarwch Gwledig

**C10 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog mentergarwch gwledig? OAQ(3)1102(RAF)

**Elin Jones:** Mae amrywiaeth eang o gynlluniau ar waith ar draws Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi mentrau a busnesau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwledig.

### Gwasanaethau Iechyd Anifeiliaid

**C11 Brynle Williams:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynglŷn â gwella gwasanaethau iechyd anifeiliaid yng Nghymru? OAQ(3)1132(RAF)

**Elin Jones:** Ni chafwyd unrhyw drafodaethau diweddar. Bydd gwasanaethau iechyd anifeiliaid yn y dyfodol yn cael eu dylanwadu gan amrywiol ffactorau, gan gynnwys datganoli'r gyllideb, a'r cyhoeddiad diweddar i uno'r asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r asiantaeth Labordai Milfeddygol. Yr wyf yn disgwyl i DEFRA ymgynghori'n llawn â mi ar ei bwriadau.

### Cymru Wledig Gynaliadwy

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gweledigaeth am Gymru wledig gynaliadwy? OAQ(3)1137(RAF)

**Elin Jones:** Mae'r cynllun datblygu gwledig yn rhoi amlinelliad o'm gweledigaeth o Gymru wledig gynaliadwy, a'm hymrwymiad i gefnogi'r economi leol a'i chymunedau gwledig.

### Taliadau Sengl

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y taliadau sengl yng Nghymru? OAQ(3)1121(RAF)

**Elin Jones:** Mae Cymru yn parhau i wneud taliadau cynnar i'r cynllun taliad sengl. Yn 2009, talwyd 92.5 y cant o ffermwyr Cymru erbyn diwedd Rhagfyr, sef oddeutu £253 miliwn, ac 82.5 y cant yn cael eu prosesu ar y diwrnod cyntaf, sef oddeutu £204 miliwn. Mae'n rhaid inni gydnabod fodd bynnag ei bod yn bosibl y bydd cyfyngiadau ariannol yn cael effaith ar yr arferiad nodedig hwn yn y dyfodol.

### Coetiroedd Cymru

**C14 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am goetiroedd Cymru? OAQ(3)1112(RAF)

**Elin Jones:** Coetiroedd i Gymru yw strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar goedwigaeth gynaliadwy yng Nghymru. Mae'n creu cydbwysedd rhwng yr amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y gall coedwigaeth eu cyflawni. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd â nifer o bartneriaid, yn rhoi'r strategaeth hon ar waith.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1135(RAF),yn ôl.*

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Llygredd Aer

**C10 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli llygredd aer yng Nghymru? OAQ(3)1357(ESH)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Mae rheoli llygredd aer yng Nghymru yn un o brif amcanion Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd gan sicrhau hawl pobl i awyr lân. Mae ein haer yn lanach nag ar unrhyw adeg ers y chwyldro diwydiannol, ond yr ydym yn parhau i weithio i sicrhau gwelliannau pellach.

### Dal a Storio Carbon

**C11 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddal a storio carbon yng

Nghymru? OAQ(3)1344(ESH)

**Jane Davidson:** Cynhaliodd y grŵp defnydd tir a newid hinsawdd arolwg o opsiynau dal a storio carbon, gan argymell ehangu coetiroedd 100,000 ha dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd yr opsiwn plannu coed sydd ar gael o dan Glastir o ddiwedd 2011 yn ehangu'r coetiroedd 3,000 ha y flwyddyn ar dir wedi'i wella, glaswelltir sur yr ucheldir a llethrau rhedyn.

## Ynni Adnewyddadwy

**C12 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr opsiynau i awdurdodau lleol ymgymryd â phrosiectau ynni adnewyddadwy gan gynnwys eu potensial i gynhyrchu incwm? OAQ(3)1369(ESH)

**Jane Davidson:** Ar 2 Mehefin 2010, caeodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar ganiatáu i awdurdodau lleol werthu'r trydan adnewyddadwy a gynhyrchir ganddynt. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw wrthi'n cael eu hystyried. Byddwn yn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Sbwriel

**C13 David Melding:** Pa fesurau sydd ar waith i leihau lefel sbwriel yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1342(ESH)

**Jane Davidson:** Yr ydym o ddifrif ynghylch sbwriel ac mae mynd i'r afael ag ef yn ganolog i'n hagenda polisi. Nod y rhaglen Trefi Taclus, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad, yw newid agweddau'r cyhoedd gan roi'r pŵer i gymunedau wella eu hamgylchedd lleol. Mae Canol De Cymru wedi elwa o gael dros £1.5 miliwn o dan y rhaglen Trefi Taclus ers 2008.

## Trosglwyddo Stociau Tai

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drosglwyddo stociau tai yng Nghymru? OAQ(3)1378(ESH)

**Jane Davidson:** Mae naw awdurdod lleol yng Nghymru wedi trosglwyddo eu stoc tai cyngor i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae dau yn trafod cynigion trosglwyddo ac mae tri wedi penderfynu gofyn i'w tenantiaid bleidleisio ar y mater. Bu pleidlais yn erbyn gan denantiaid dau awdurdod ac mae'r ddau yn ystyried y ffordd ymlaen i sicrhau safon ansawdd tai Cymru.

## Darparu Tai

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu tai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(3)1372(ESH)

**Y Dirprwy Gweinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Ar 31 Mawrth 2009, yr oedd 290,450 o anheddau yn y Canolbarth a'r Gorllewin, 22 y cant o gyfanswm Cymru. Rhwng 2007-08 a 2008-09, cafodd 2,624 o anheddau newydd eu cwblhau ym mhum awdurdod lleol y canolbarth a'r gorllewin. Darparwyd 668 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol, gan gynnwys adeiladau newydd.